**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU** |
| **SUBJECT:** | **PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU - DYDD IAU, 14 HYDREF 2021 DYDD IAU, 14 HYDREF 2021** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
J. Hill
C. Meredith
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
G. Thomas
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Steve Smith (Swyddog) |
| Eirlys Hallett (Swyddog) |
| Mark Hopkins (Swyddog) |
| Steph Hopkins (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd M. Day. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Gwnaed y datganiadau buddiant dilynol:-<br><br>Cynghorydd B. Willis<br>Eitem Rhif 4 - Adroddiad Ceisiadau Cynllunio<br>C/2021/0133 –<br>Llain, tir i'r dwyrain o Whitworth Terrace, Tredegar | |
| No. 4 | **ADRODDIAD CEISIADAU CYNLLUNIO**<br><br>C/2021/0243<br>Llys Bery, 28 Tanglewood Drive, Blaenau, Abertyleri, NP13 3JB<br>Cadw a chwblhau ardal decin, waliau, tirlunio a thir amgaeedig<br><br>Dywedodd yr Arweinydd Tîm fod y cais yn gofyn am ganiatâd i gadw a chwblhau ardal decin uwch o fewn gardd flaen annedd ar wahân. Amlinellodd y Swyddog Cynllunio y cais gyda chymorth lluniau a diagramau fel y manylir yn yr adroddiad.<br><br>Cyfeiriodd yr Arweinydd Tîm yr Aelodau ymhellach at yr ymgynghoriad a dywedodd na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau a bod Aelod Ward na ystyriai fod gan y datblygiad effaith niweidiol ar olwg y stryd wedi gofyn i'r cais gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.<br><br>Yn nhermau asesiad cynllunio, dywedodd y cafodd y cynnig ei asesu ar bolisïau DM1 a DM2 y Cynllun Datblygu Lleol 'r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd yng nghyswllt decin uchel, balconïau a waliau cadw. Dywedodd y Swyddog Cynllunio fod y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi y dylai'r cynigion datblygu fod yn addas i'r cyd-destun lleol yn nhermau math, dull, maint a chymysgedd. Rhaid i'r cynigion fod o ddyluniad da sy'n cyfnerthu cymeriad lleol yr ardal neu'n cyfrannu'n gadarnhaol at drawsnewid yr ardal, felly nododd y Swyddog Cynllunio o'r adroddiad fod cyflwyno'r ardal decin uwch yn ychwanegiad diolwg ac amlwg iawn i olwg y stryd ac y byddai'n groes i'r polisi yn y Cynllun Datblygu | |

| | | |
|---|---|---|
| | Lleol. Mae'r datblygiad ar du blaen yr annedd ac yn amlwg iawn yn y stryd. Mae'r datblygiad hefyd yn fwy amlwg oherwydd lleoliad uchel yr annedd bresennol. Mae'r decin yn ymestyn ar hyd lled y talcen presennol, fodd bynnag mae hefyd yn bargodi ymhellach i ochr yr annedd. Cafodd ei ychwanegu oherwydd bargodiad 2.9m y decin a'r estyniad sy'n lletach na'r talcen presennol, penderfynwyd fod y datblygiad yn neilltuol o fawr. Dywedodd y Swyddog Cynllunio, er fod golwg y stryd yn cynnwys anheddau o wahanol faint a dyluniad, bod yr anheddau i'r dwyrain a'r de ar lefel uwch na'r ffordd. Credai'r Swyddog y gallai'r cynnig hwn osod cynsail ar gyfer datblygiadau tebyg a fyddai'n cael effaith niweidiol ar gymeriad golwg y stryd.<br><br>Atgoffodd yr Arweinydd Tîm yr Aelodau am benderfyniad apêl ddiweddar yng nghyswllt cadw decin yn Hawthorne Glade, Tanglewood a gafodd ei wrthod oherwydd yr effaith weledol niweidiol a cholli preifatrwydd i anheddau cyfagos.<br><br>Daeth Arweinydd y Tîm i ben drwy ddweud yr ystyriwyd fod oherwydd maint, swmp a lleoliad, yr ystyriwyd fod y decin uwch yn nodwedd or-amlwg a fyddai'n cael effaith weledol niweidiol ar olwg y stryd a nododd argymhelliad y swyddog y dylid gwrthod y cais.<br><br>Anerchodd yr Ymgeisydd y Pwyllgor ar wahoddiad y Cadeirydd.<br><br>Hysbysodd Mr. Llewellyn y Pwyllgor iddo adeiladu'r annedd yn 2003 a'i fod wedi gwneud gwaith tirlunio o amgylch yr annedd fel yr oedd cyllid yn caniatáu. Ym mis Medi 2017 dechreuodd gwaith ar y tu blaen, cyn y gwaith tirlunio hwn roedd y tir presennol yn wastad ac yn ymestyn o'r gwaelod ar i allan gan 4m tuag at y briffordd cyn graddiant serth i'r wal derfyn. Roedd maint y graddiant yn golygu y byddai unrhyw fynediad a chynnal a chadw yn y dyfodol yn anodd ac mai terasu oedd yr unig lwybr gweithredu addas, felly dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi dechrau gwaith i ffurfio dau raddiant llai serth gyda theras is gwastad hanner ffordd rhyngddynt. Cyfeiriodd Mr. Llewelyn at nodyn 7 canllawiau dylunio i ddeiliaid tai Blaenau Gwent a dywedodd mai ei fwriad yw ffurfio'r teras uchaf a dychwelyd y tir i'w gyflwr blaenorol o ran uchder a maint drwy godi wal gadw o fewn yr uchder datblygu a ganiateir. Caiff wyneb y decin wedyn ei gadw ar lefel daear ac ymddengys fod yr holl strwythur yn ateb y canllawiau heb angen cais cynllunio.<br><br>Dywedodd yr Ymgeisydd na fyddai'r datblygiad yn achosi unrhyw or-edrych ychwanegol ar adeiladau cyfagos ar wahân i'r rhai y | |

| | | |
|---|---|---|
| | gellid eu gweld ar hyn o bryd o'r ffenestri. Ychwanegwyd fod yr Ymgeisydd wedi dewis opsiwn cynaliadwy ar gyfer y datblygiad a fyddai'n sicrhau ffrâm strwythurol addas, a gefnogir gan wal frics i sicrhau'r un canlyniad gweledol. Byddai dewis gorffeniad y deunydd adeiladu yn gydnaws gyda datblygiad Tanglewood. Byddai maint wyneb y decin yn llai nag ôl-troed y tir a dynnwyd i hwyluso'r gwaith teras ac mae'r lefel uwchben y priffordd yn parhau heb newid. Er mwyn rhoi cefnogaeth byddai'r wal ychydig yn hirach gan fod yn rhaid iddi gyrraedd y llwybr ar hyd yr adeilad. Ychwanegodd yr Ymgeisydd y byddai'r gwrych llawryf a choed ceirios a gynhwysir fel rhan o'r datblygiad yn cuddio'r wal ac yn cynyddu bioamrywiaeth.<br><br>Ychwanegwyd ymhellach na fyddid yn effeithio ar y cefnlen, teras na chymeriad yr adeilad ac y byddai'n debyg i gartrefi eraill ar y stad. Mae hefyd rai anheddau uwch ar y safle a nododd yr Ymgeisydd fod tystiolaeth ar gael i gefnogi'r sylwadau hyn. Ychwanegodd Mr. Llewelyn na chafwyd unrhyw gwynion gan gymdogion a chredai felly na fyddai'r cais yn effeithio ar lesiant unrhyw un o'i gymdogion a byddai'n gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth ddyladwy a chaniatáu'r balconi.<br><br>Cytunodd yr Aelod Ward gyda sylwadau'r Ymgeisydd a theimlai fod y strwythur yn gwella'r ardal. Anghytunai'r Aelod Ward gydag argymhelliad y swyddog a theimlai na ddylid bod wedi cyfeirio at gais blaenorol gan fod y datblygiad hwn yn llai. Teimlai'r Aelod Ward na fyddai'r cais yn cael effaith niweidiol ar yr ardal gan ei fod yn gydnaws gydag anheddau eraill ar y safle.<br><br>Dywedodd yr Aelod Ward bod yr ardal wedi gordyfu ac yn ddiolwg cyn y gwaith a wnaeth Mr Llewelyn ar ei gartref ac felly anogodd Aelodau i roi caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, os teimlai Aelodau y byddai cyfarfod safle yn fanteisiol, cynigiodd yr Aelod Ward y dylid trefnu cyfarfod safle.<br><br>Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor gyda'r Aelod Ward a theimlent y byddai'r cais yn gwella'r ardal. Mae'r datblygiad wedi'i leoli tuag at gefn y safle a byddai'n cael ei orffen i safon uchel. Yn nhermau'r cais blaenorol, nododd yr Aelodau fod y balconi yn llawer mwy ac felly teimlid y dylai pob cais gael eu hystyried ar eu haeddiant.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at ddatganiad yr Ymgeisydd yng nghyswllt plannu ychwanegol ar gyfer sgrinio a gofynnodd os y gellid rhoi amod ar y cais fel rhan o'r penderfyniad. | |

Dywedodd yr Aelod Ward fod yr Ymgeisydd eisoes wedi plannu coed. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd hynny a byddai'n hapus i blannu mwy o goed aeddfed os gofynnai'r Pwyllgor am hynny.

Cynigiwyd ac eiliwyd cytuno i'r cais gydag amod briodol i'w dirprwyo gan swyddogion i sicrhau fod gan y decin lefel addas o sgrinio tirlunio. Mewn pleidlais

PENDERFYNWYD yn unfrydol i **ROI** caniatâd cynllunio.

C/2021/0172
Cae Ben Ward, Brynmawr, NP23 4GU
Cadw cloddwaith yn cynnwys mewngludo deunydd, ailbroffilio cyfuchluniau presennol, gwaith ategol dros dro yn cynnwys cyfleusterau llesiant ac ardaloedd parcio gydag adfer glaswelltir gyda gwrychoedd a nodweddion draeniad, ar gyfer pori a chadwraeth natur ac adfer hawliau tramwy, llwybrau seiclo a mynedfa dros dro.

Dywedodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu fod y cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer cadw cloddwaith yng Nghae Ben Ward, Brynmawr. Mae'r gwaith yn cynnwys mewngludo deunydd, ailbroffilio cyfuchluniau presennol, gwaith ategol dros dro yn cynnwys cyfleusterau llesiant ac ardaloedd parcio, adfer i laswelltir gyda gwrychoedd a nodweddion draeniad ac adfer hawliau tramwy, llwybr seiclo a mynedfa dros dro. Gwnaed y gwaith mewn cysylltiad gyda'r gwaith presennol ar gyfer prosiect gwneud Heol Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol yn yr ardal rhwng Brynmawr a Gilwern. Mae'r deunydd a waddodwyd yng nghae Ben Ward yn fwy na gofynion dylunio y briffordd newydd. Ychwanegodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu y gall Aelodau gofio y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer gwaddodi deunydd dros ben ynghyd â gwaith ategol arall ar Gae Ben Ward yn 2016. Fodd bynnag, mae'r cynllun wedi newid erbyn hyn oherwydd yr angen i waddodi llenwi ychwanegol ar y safle ac felly'r angen i gyflwyno'r cais ôl-weithredol hwn.

Amlinellodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu y cais ymhellach gyda chymorth diagramau fel y'u manylir yn yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'r ymgynghoriad cadarnhaol a gynhaliwyd. Nododd Arweinydd y Tîm sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a dywedodd y rhoddwyd sylw i hynny yn yr adroddiad.

| | | |
|---|---|---|
| | Siaradodd y Rheolwr Tîm ymhellach am yr adroddiad ac amlinellu pwyntiau allweddol yng nghyswllt y tirlun a'r effaith weledol, ecoleg a bioamrywiaeth, amgylcheddol, mynediad, defnydd tir a hamdden, sefydlogrwydd tir, draeniad ac amgylchedd hanesyddol fel y'u manylir yn y cais cynllunio. Dywedodd yr Arweinydd Tîm ei bod yn cytuno gyda barn y Rheolwr Gwasanaeth Seilwaith Gwyrdd ac Ecolegydd y Cyngor ac nad oedd ganddo unrhyw broblemau yng nghyswllt gwrychoedd ac roedd yn fodlon gyda'r cynllun arfaethedig i adfer y tirlun. Dywedodd yr Arweinydd Tîm fod y proffiliau tir wedi newid ychydig ers cwblhau'r adroddiad gan y gofynnwyd am broffilio meddalach.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Tîm at ffotograffau a dynnwyd o wahanol bwyntiau a chredai na fyddai unrhyw effaith annerbyniol ar y tirlun ac adeiladau cyfagos.<br><br>O ran ôl-ofal, dywedodd y Rheolwr Tîm fod hyn yn wreiddiol am 5 mlynedd, fodd bynnag gofynnwyd i'r Ymgeisydd os y gallai fod am fwy o amser a chytunwyd ar gyfnod o 8 mlynedd sy'n fwy na'r cyfnod ôl-ofal.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Tîm ar yr argymhelliad ar gyfer cymeradwyaeth a dywedodd fod angen mwy o wybodaeth ar gyfer amodau 2 a 3. Daeth yr wybodaeth honno i law erbyn hyn, mae'n dderbyniol ac nid oes angen yr amodau mwyach. Roedd y Rheolwr Tîm yn fodlon i gytuno i'r cais.<br><br>Dywedodd yr Aelod Ward fod preswylwyr Brynmawr wedi dioddef llawer iawn o ymyriad yn ystod y gwaith. Ychwanegodd yr awgrymwyd mai'r defnydd gorau o'r ardal hon fyddai fel gofod awyr agored i'r gymuned a chroesawodd fwy o blannu yn yr ardal.<br><br>Nid yw'r amodau yn sôn am blannu mwy o wrychoedd a choed a theimlai'r Aelod Ward y dylid cynnwys hyn. Hefyd, awgrymodd yr Aelod Ward y dylid rhoi llyn yn yr ardal. Teimlid y byddai'r agweddau ychwanegol hyn yn ei gwneud yn ardal awyr agored ddymunol.<br><br>Nododd y Rheolwr Tîm y sylwadau yng nghyswllt plannu ychwanegol a dywedodd fod cynllun tirlunio manwl yn ei le a gafodd ei gynllunio'n ofalus i fanteisio o welliannau bioamrywiaeth ar y safle a gobeithiai annog cornicyllod yn ôl i'r safle. Gallai plannu mwy o goed gael effaith niweidiol ar amcanion bioamrywiaeth ac ecoleg y mae'r safle hwn yn dymuno eu | |

cyflawni. Yng nghyswllt y llyn, dywedodd yr Arweinydd Tîm y cafodd y llynnoedd eu cynllunio i gymryd dŵr yn rhedeg o'r safle ac ar gyfer dibenion ecoleg fel rhan o welliant ehangach ar gyfer draeniad a bioamrywiaeth. Dywedodd yr Arweinydd Tîm fod y cynllun a gyflwynwyd yn dderbyniol ac awgrymodd y gellid ymchwilio coed ychwanegol yn y dyfodol.

Nododd Aelod eraill y y defnyddid y tir ar gyfer pori a chroesawodd y gwrychoedd. Fodd bynnag, teimlai'r Aelod y byddid yn defnyddio mwy o goed fel cysgod ar gyfer yr anifeiliaid. Cododd yr Aelod hefyd bryderon am sefydlogrwydd a dywedodd y byddai'n gymorth gyda draeniad ac atal dŵr rhag rhedeg ar yr A467 pe byddai mwy o goed ar y safle.

Os yw Aelodau yn edrych ar newid y tirlunio, awgrymodd y Rheolwr Tîm y dylent hefyd ystyried y gallai plannu ychwanegol gael effaith ar y gwelliannau bioamrywiaeth y dymunir i'r safle eu cyflawni. Awgrymodd yr Arweinydd Tîm ei bod yn dirprwyo pwerau i ychwanegu amodau yng nghyswllt plannu coed ychwanegol.

Teimlai'r Pwyllgor y byddai'r safle yn manteisio o blannu ychwanegol. Wedyn cynigiodd yr Aelod Ward y dylid ceisio amod i gynnwys plannu ychwanegol ac eiliwyd hyn.

Mewn pleidlais,

PENDERFYNWYD yn unfrydol i **ROI** caniatâd.

C/2021/0133
Llain, Tir i'r dwyrain o Whitworth Terrace, Tredegar
Annedd ar wahân newydd (disodli cymeradwyaeth flaenorol C/2016/0225)

Dywedwyd fod y cais yn ceisio caniatâd cynllunio llawn i godi tŷ 4 ystafell wely ar wahân ar dir i ddwyrain Whitworth Terrace, Tredegar. Mae mynediad i'r tir o Whitworth Terrace ar hyd llwybr sy'n mynd ar hyn o bryd rhwng dau floc o stablau a siediau storio. Mae safle'r cais yn mesur tua 0.15 hectar ac mae'n ddarn hir a chul gyda wyneb caled mewn rhannau. Mae'r safle ar ei fwyaf tua 20 x 75 metr, gyda goleddf o'r de i'r gogledd. Y cynnig yw codi annedd ar osgo i ogledd ddwyrain y stabl a'r adeiladau storio presennol fyddai'n wynebu'r gogledd orllewin dros lethrau'r cwm coediog i'r gogledd y mae'r Ymgeisydd hefyd yn berchen arnynt.

Byddai gan y prif dŷ rendr a chaiff esgyll yr anecs eu codi gyda wyneb brics gyda tho llechen. O ran dyluniad, roedd y prif dŷ yn dŷ deulawr gyda thalcen a byddai ganddo fargod talcen dau-lawr mawr ar y tu blaen.

Nododd y Swyddog ymhellach y diagramau fel y'u manylir yn yr adroddiad ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Derbyniodd y Swyddog fod yr anheddau a adeiladwyd i dde'r safle o wahanol ddyluniad i'w gilydd fodd bynnag mae'r ddau dŷ yn llai o faint ac o olwg mwy traddodiadol na'r un a gynigir ar hyn o bryd. I gloi, credai'r Swyddog o ystyried pob mater perthnasol bod maint a dyluniad y tŷ arfaethedig yn annerbyniol yn y lleoliad hwn ac y byddai'n ymddangos allan o gyd-destun gyda'r ardal o amgylch, felly argymhellodd wrthod y cais.

Anerchodd y Cynghorydd John Morgan, Aelod y Ward, y Pwyllgor ar wahoddiad y Cadeirydd. Dywedodd yr Aelod Ward ei fod o blaid y datblygiad a nododd yr anghysonderau a deimlai oedd yn y cais.

Ychwanegodd yr Aelod Ward fod yr Awdurdod o blaid tai ychwanegol ym Mlaenau Gwent a theimlai Aelod y Ward fod gennym nifer o gartrefi band is yn yr ardal, fodd bynnag dim ond 78 tŷ sydd ym Mand G. Teimlai'r Aelod Ward ei bod yn bwysig bod tai mwy yn cael eu codi gan fod llawer o bobl sy'n gweithio mewn swyddi rheoli ym Mlaenau Gwent yn edrych tu allan i'r ardal ar gyfer tai mwy.

Ychwanegodd yr Aelod Ward ymhellach fod y datblygiad yn dderbyniol a chefnogodd gymeradwyo'r cais.

Cyfeiriodd Aelod at drafodaethau blaenorol am y Cynllun Datblygu Lleol a dywedodd y cynigiwyd cynnwys yr ardal hon ar gyfer datblygiad tai. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, ni symudwyd ymlaen gyda'r diweddariadau hyn. Cytunai'r Aelod gyda'r Aelod Ward a theimlai y byddai'r datblygiad yn gwella'r ardal ac na fyddai'n tarfu. Ategodd yr Aelod y dylai'r darn hwn o dir gael ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ac felly cynigiodd y dylid rhoi caniatâd cynllunio.

Dywedodd Aelod arall fod nifer o adeiladau o wahanol gynlluniau a maint yn Georgetown ac nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cais. Croesawodd yr Aelod yr adeilad a theimlai fod Blaenau Gwent angen mwy o gartrefi o'r dyluniad/maint hwn.

| | | |
|---|---|---|
| | Cynigiwyd ac eiliwyd cytuno i'r cais ac y dylid dirprwyo pwerau i swyddogion er mwyn ychwanegu'r amodau priodol at y cais.<br><br>PENDERFYNWYD **RHOI** caniatâd cynllunio.<br><br>Ymataliodd y Cynghorydd B. Willis ei bleidlais. | |
| **No. 5** | **APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DIWEDDARIAD DNS HYDREF 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd K. Rowson y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 6** | **DIWEDDARIAD APÊL CYNLLUNIO: MAES Y DDERWEN, STRYD CHARLES, TREDEGAR CYF.: C/2020/0282**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cynllunio.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau am yr adroddiad sy'n rhoi manylion penderfyniad yr Arolygiaeth Cynllunio yng nghyswllt apêl cynllunio yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu uned byw â chymorth 5 ystafell wely a gwaith cysylltiedig ym Maes y Dderwen, Stryd Charles, Tredegar.<br><br>Nododd y Rheolwr Gwasanaeth y rhesymau a roddodd gan y Pwyllgor dros wrthod yng nghyswllt parcio, addasrwydd lleoliad, colli gofod amwynder ac nad yw er budd gorau y gymuned.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod yr Arolygydd wedi anghytuno gyda'r rhesymau hyn dros wrthod gan deimlo bod diffyg tystiolaeth i gefnogi'r rhesymau a roddwyd dros wrthod. Roedd yr Arolygydd yn fodlon, yn amodol ar amodau, bod y datblygiad yn dderbyniol ac wedi caniatau'r apêl a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad.<br><br>Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau yr Hysbysiad Penderfyniad Apêl ymhellach ac ategu y cafodd y rhesymau eu gwrthod oherwydd diffyg tystiolaeth. Gwerthfawrogai'r Rheolwr Gwasanaeth fod Aelodau yn anghytuno | |

| | | |
|---|---|---|
| | ar argymhellion swyddogion weithiau, fodd bynnag mae'n bwysig y rhoddir y dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi penderfyniadau a wneir gan Aelodau.<br><br>Roedd yr Aelodau lleol yn siomedig gyda phenderfyniad yr apêl a dywedodd Aelod arall ei bod wedi rhoi tystiolaeth ychwanegol i'r Arolygydd ar fater yn ei Ward, fodd bynnag anwybyddwyd hynny.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth nad oedd unrhyw Aelod lleol wedi dod ymlaen i gefnogi'r rhesymau dros wrthod felly yr unig dystiolaeth a roddwyd oedd cofnodion y cyfarfod.<br><br>Awgrymodd Aelod fod o hyn ymlaen fod y Pwyllgor yn cynorthwyo'r swyddogion mewn unrhyw ffordd bosibl er mwyn i'r rhesymau dros wrthod yn erbyn argymhelliad swyddog gael eu cyflwyno. Ychwanegwyd y dylid hefyd geisio sylwadau gan yr Heddlu mewn rhai achosion.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi penderfyniad yr apêl ar gyfer cais cynllunio C/2020/0282. | |
| **No. 7** | **CAIS: C/2021/0103 SAFLE: CYN GANOLFAN SWYDDI, TREDEGAR**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>Dywedodd y Swyddog y gofynnwyd am yr adroddiad yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor gan fod Aelodau wedi gohirio'r cais i gael ymatebion gan yr Heddlu lleol, Cyngor Tref Tredegar a'r Awdurdod Tân yn ogystal â cheisio eglurhad pellach am y rhesymau dros wrthod. Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'r pwyntiau allweddol.<br><br>Nodwyd mai'r prif bryderon y soniodd Aelodau lleol amdanynt oedd y problemau a gafwyd o sefydliadau tebyg yng nghanol y dref. Fodd bynnag, dywedodd y Swyddog fod gan y safle dan sylw ganiatâd cynllunio ar gyfer hostel a dywedodd fod y cais presennol ar gyfer G&B ac y cynigiwyd amodau a all liniaru pryderon. Byddai angen caniatâd cynllunio pellach pe byddai'r ymgeisydd yn dymuno newid y defnydd. Felly, dywedodd y Swyddog fod ei hargymhelliad yn parhau fel yr oedd ac y dylid cytuno i'r cais.<br><br>Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Ward i annerch y Pwyllgor ar y | |

| | | |
|---|---|---|
| | pwynt hwn.<br><br>Croesawodd y Cynghorydd S. Thomas,  Ward Canol a Gorllewin Tredegar y sylwadau a gafwyd gan yr Heddlu lleol yng nghyswllt y cais. Mae’r wybodaeth a roddwyd yn cefnogi pryderon a godwyd gan Aelodau lleol a theimlai’r Aelod Ward y byddai’n anodd i’r heddlu a’r awdurdod lleol fonitro defnydd cywir. Pe rhoddid caniatâd, teimlai’r Aelod Ward mai ychydig iawn o sail fyddai gan bobl Tredegar i wrthod y datblygiad.<br><br>Dywedodd yr Aelod Ward fod y datblygydd yn gweithredu safleoedd tebyg mewn ardaloedd eraill dan y cais tŷ llety a ddefnyddiwyd yn debyg i’r safle yng nghanol y dref. Mae’r adroddiad yn rhoi manylion costau’r apêl, fodd bynnag yn yr achos hwn byddai’r gwrthodiad yn cael ei gefnogi gan yr Heddlu lleol, Aelodau lleol a’r gymuned.<br><br>Cynigiodd yr Aelod Ward ei gefnogaeth pe apeliwyd yn erbyn y penderfyniad a byddai’n hapus i roi’r dystiolaeth angenrheidiol. Wedyn gofynnodd yr Aelod Ward i’r Pwyllgor i wrthod y cais oherwydd y problemau presennol a brofir yng nghanol tref Tredegar.<br><br>Cefnogodd Aelod lleol arall y sylwadau a wnaed a theimlai nad oedd yn safle addas ar gyfer G&B. Roedd yr Aelod yn croesawu twristiaeth i Dredegar, fodd bynnag mae’r adeilad hwn yn fwy addas ar gyfer swyddfeydd na G&B. Teimlid y byddai’n dda gweld cynlluniau busnes i ganfod beth oedd yr ymgeisydd wedi’i gynllunio ar gyfer y datblygiad a sut y byddai o fudd i ganol y dref pan gyflwynir ceisiadau ar gyfer busnesau yng nghanol y dref. Cefnogodd yr Aelod yr Aelod Ward ac y dylid gwrthod y cais.<br><br>Cynigiwyd ac eiliwyd gwrthod y cais. Y rheswm dros wrthod oedd y byddai’r datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar yr ardal o amgylch o gofio am y problemau presennol sy’n bodoli.<br><br>Felly mewn pleidlais, roedd 12 o blaid y diwygiad ac ymatalodd 1 rhag pleidleisio, a<br><br>PHENDERFYNWYD **<u>GWRTHOD</u>** y cais cynllunio. | |
| **No. 8** | **<u>CYNLLUNIAU DNS POSIBL AR GYFER FFERMYDD GWYNT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoli Datblygu yr adroddiad a gyflwynwyd i hysbysu Aelodau am ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru yng nghyswllt pedwar cyfeiriad cwmpasu a gyflwynwyd ar gyfer ffermydd gwynt. Dywedwyd y byddai'r ffermydd gwynt yn cael eu gosod ym Mynydd Carn-y-Cefn, Mynydd Llanhiledd, Manmoel ac Abertyleri a rhoddwyd trosolwg o'r ardaloedd.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoli Datblygu na chaiff pob cais cynllunio eu cyflwyno i'r Cyngor. Mae cynlluniau ar gyfer ynni adnewyddadwy sy'n cynhyrchu mwy na 10 Megawatt yn cael eu galw yn 'Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' a chyflwynir y cynlluniau hyn i Lywodraeth Cymru i gael eu penderfynu gan Arolygydd Cynllunio annibynnol. Fodd bynnag, byddid yn ymgynghori'n ffurfiol gyda'r Cyngor ar unrhyw geisiadau cynllunio dilynol.<br><br>Dywedwyd y byddai pob Aelod yn cael cyfle i gyflwyno cwestiynau os yw'r cynlluniau yn mynd rhagddynt.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 9** | **<u>RHESTR CEISIADAU A BENDERFYNWYD DAN BWERAU DIRPRWYEDIG RHWNG 23 AWST 2021 A 24 MEDI 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 10** | **<u>ACHOSION GORFODAETH A GAFODD EU CAU RHWNG 9 GORFFENNAF 2021 A 30 MEDI 2021</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf budd cyhoeddus, fod o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy’n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn neilltuol a nodi’r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |